



‘Drws Dychymyg’: Trafodaeth  
ar sut y gall llenyddiaeth  
ysbrydoli dyfodol llewyrchus i  
unigolion yng Nghymru

---

Dr J. Brigley, MA, PhD  
& Llenyddiaeth Cymru

1 Rhagfyr 2017

## 1. Cyd-destun

"Dylai profiad pobl ifanc yn yr ysgol sbarduno eu dychymyg mewn ffyrdd sy'n ennyn cyffro, yn rhoi boddhad personol iddynt ac yn meithrin meddyliau creadigol ... "

---Graham Donaldson

Comisiynwyd y papur hwn gan Llywodraeth Cymru fel papur trafod at ddefnydd y grŵp Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Y bwriad yw:

- sbarduno dadl;
- annog ystyriaeth o gyfoeth Llenyddiaeth Gymreig a Chymraeg;
- canolbwyntio ar rym trawsnewidiol darllen;
- dangos y gall ymyrraeth briodol gan athro, llyfrgellydd neu awdur drawsnewid uchelgais a hunan-hyder y disgybl;
- dangos ffyrdd y mae darllen yn ganolog i ddyfodol llwyddiannus;
- a rhoi enghreifftiau o brofiadau sydd ar gael yng Nghymru a allai fod yn rhan o hawl disgyblion.

Mae'n amlinellu:

- **gwybodaeth/cysyniadau craidd a sgiliau a chymwyseddau cysylltiedig** sy'n hanfodol ar gyfer disgyblion 3-16 oed
- **dilyniant** ar gyfer yr uchod a syniad o'r hyn y dylai disgyblion ei ddysgu a'i brofi yn 5, 8, 11, 14, ac 16 oed
- sut y gellir ymgorffori'r Cyfrifoldebau Traws-Cwricwlwm, sgiliau ehangach a dimensiwn Cymru / safbwyntiau rhyngwladol **mewn perthynas â llafaredd**

Mae'n cysylltu â phedwar diben canolog *Dyfodol Llwyddiannus* Donaldson (2015), lle mae plant a phobl ifanc yng Nghymru yn datblygu fel unigolion:

- **pobl uchelgeisiol, galluog sy'n** barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau
- **cyfranogwyr mentrus a chreadigol** sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith

- **unigolion iach, hyderus** sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o'r gymdeithas
- **dinasyddion gwybodus a moesegol**, sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd

Mae Donaldson yn cydnabod pŵer trawsnewidiol darllen:

"Mae cael profiad o lenyddiaeth yn ymestyn dealltwriaeth plant a phobl ifanc o rym iaith. Gall ysgogi'r dychymyg, herio'r meddwl o a chyflwyno syniadau newydd"

---Graham Donaldson

Mae'r papur hwn yn ceisio dangos ffurfiau posib 'profiad' o'r fath.

Yn amlwg, mae darllen yn cyfrannu at lythrennedd, datblygiad iaith a chyfathrebu, ond rydym o'r farn fod Llenyddiaeth hefyd yn bwnc mynegiannol, sy'n cyfrannu'n llawn at y maes hwnnw. Mae cysylltiad annatod rhwng ysgrifennu a darllen, a'r ffordd orau o ddeall ysgrifennu yw rhoi cynnig arni eich hunan. Mae'r 'Creativity Wheel', a adeiladwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr (gweler Atodiad 1) mor berthnasol â darllen / ysgrifennu fel ag y mae i ffurfiau celfyddydol eraill megis theatr a cherddoriaeth. Rydym yn dechrau darllen llyfr gyda chwilfrydedd, yn ceisio dyfalu beth fydd yn digwydd nesaf, ond er mwyn darganfod hynny, mae'n rhaid bod yn amyneddgar a dyfalbarhau. Rydym ni'n agor drws dychymyg, gan sicrhau *llif* wrth i ni ddarllen. Mae angen disgyblaeth a dyfalbarhad i ddarllen; rydym yn siarad â chymeriadau yn ein pennau, yn cael deialog gyda'r awdur, yn rhannu barn gyda ffrindiau a theulu, ac yna trafod ein syniadau gyda rhwydwaith ehangach. Am y rheswm hwn, ac oherwydd bod gan ein darllen gysylltiadau clir â'n hysgrifennu, mae agweddau o ddarllen yn perthyn i'r celfyddydau mynegiannol.

Mewn modd tebyg, mae Llenyddiaeth yn cyfrannu at y Dyniaethau trwy fyfyrddodau ar gymdeithas, hanes a materion amgylcheddol. Mae gwaith ymchwil eang yn dangos bod darllen yn ein helpu i sicrhau ein dealltwriaeth a'n lle yn y byd, a hefyd yn cynnig dihangfa. Drwy ddatblygu empathi, gall hefyd gyfrannu at fodolaeth mwy anhunanol a myfyrgar.

Am y rhesymau hyn, rydym yn argymhell y dylai'r papur hwn gael ei rannu gyda'r grwpiau sy'n ymchwilio i Feysydd Dysgu a Phrofiad eraill.

Cyn parhau, byddai'n werthfawr rhestru rhai o gynseiliau'r papur hwn:

1. Dylai fod gan bob plentyn fynediad at destunau sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n eu cyffroi.
2. Lle y bo'n bosibl, defnyddir y gair testun yn hytrach na llyfr i gynnwys testunau rhyngweithiol, nofelau graffig, a gemau gyda strwythurau naratif clir.
3. Mae gan lyfrgelloedd a llyfrgellwyr ran fawr i'w chwarae mewn addysg. Nhw yw porthorion y drws dychymyg.
4. Mae cwrdd ag awduron a'u clywed yn darllen yn gymhellant grymus, a phan fo'r awduron hynny yn rai Cymreig, maent yn darparu delfrydau a dyheadau hanfodol a pherthnasol.
5. Mae barddoniaeth wrth wraidd Llenyddiaeth.
6. Mae perfformiad yn dod â thestun yn fyw, boed yn ddisgybl sy'n arsylwi neu'n cymryd rhan.
7. Mae siarad am lyfrau yn galluogi disgyblion i ddatblygu meddwl beirniadol a chreadigol.
8. Mae profiadau megis y rhai a geir trwy Ganolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd, cynllun nawdd Awduron ar Daith, a chymryd rhan mewn cystadlaethau llenyddol megis Eisteddfod yr Urdd yn chwarae rhan bwysig wrth ddarparu dysgu cymhwysol gwerthfawr ar gyfer disgyblion (gweler adran 2.3).
9. Mae cyhoeddwy'r Cymru yn datblygu a chynnal y ddarpariaeth, ond mae angen rhagor o gefnogaeth er mwyn annog athrawon i ddewis testunau Cymreig.
10. Mae gan ddarllen ac ysgrifennu berthynas symbiotig.
11. Gall llenyddiaeth ddarparu gwybodaeth am iaith ac mae'n cyfrannu at ddatblygiad llythrennedd.

### 1.1 Perthynas unigryw Cymru â Llenyddiaeth

"Mae llenyddiaeth yn rhoi cartref deallusol, emosiynol, tu hwnt i'w gyd-destun i iaith"  
--- Rajvi Glasbrook-Griffiths, Arweinydd Llythrennedd yn Ysgol Gynradd Glan Usk

Mae gan Gymru draddodiad hir o ysgrifennu, yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae awduron cyfoes yn parhau i droi drych ar ein cymdeithas, ac i ddistyllu, archwilio'n feirniadol, a thrafod profiadau Cymreig. Wrth wneud hynny, maent yn gwneud cyfraniad i bynciau llosg y foment, yn cynnig gwybodaeth am gyfleoedd a rennir, ac yn gwneud y pethau anghyfarwydd yn gyfarwydd. Yn ein

gorffennol diwydiannol, roedd gan Llenyddiaeth rôl bwysig wrth godi ysbryd ac ymwybyddiaeth ein cyndeidiau a'n cyn-neiniau a gyfrannodd eu ceiniogau i adeiladu llyfrgelloedd ledled y Cymoedd. Roedd eu trafodaethau nid yn unig yn canolbwyntio ar y Beibl fel testun, ond hefyd ar nofelwyr megis Dickens a beirdd fel Tennyson. Mynegodd Henry Vollam Morton syndod, wrth ysgrifennu yn y 1930au am ei deithiau o gwmpas Cymru, wrth glywed glöwyr yn trafod gwaith Einstein ac Alexander Pope. Yn ei astudiaeth o ddarllen ymysg pobl dosbarth gweithiol *The Intellectual Life of the British Working Class*, mae Jonathan Rose yn rhestru llyfrau gan Dickens, Ruskin, Rossetti a Shakespeare, a oedd ar gael ac yn cael eu darllen mewn cartrefi dosbarth gweithiol. Mae Rose yn dyfynnu glöwr o'r 1930au, sy'n dweud:

"Ar adegau o'r fath [pan oeddem yn ddarllen] nid oeddem yn teimlo fel glöwyr yn gwneud swyddi israddol a pheryglus ym mherfeddion y ddaear, ond fel pobl breintiedig oedd yn profi rhywbeth rhyfeddol"

--- Glöwr Cymreig, a ddyfynnwyd gan Jonathan Rose

Y rheswm dros ddarllen - sy'n werth ei gofio - yw bod ymarfer o'r fath yn caniatáu i bobl, fel Aneurin Bevan a Vernon Hartshorn, ddatblygu'r sgiliau icthyddol a oedd yn eu galluogi i drafod, gwerthuso a gwneud synnwyr o'r byd, ac felly'n cyfrannu at gymdeithas ddemocrataidd.

Ni ddylid tanbriso pŵer Llenyddiaeth i ehangu'r meddwl, gan roi breuddwydion a gobaith i bobl. Rydym unwaith eto yn wynebu amddifadiad economaidd-gymdeithasol eang a chynyddol yng Nghymru. Mae ysgolion yn llygad eu lle wrth weithio i gau'r bwlch ar gyfer plant a enir mewn tloidi. Mae athrawes yn Ysgol Gynradd Glan Usk, Rajvi Glasbrook-Griffiths, wedi siarad am ei chefnidir difreintiedig a sut roedd llyfrgell yr ysgol yn "iachawdwriaeth" iddi. Mae'r gair yn arwyddocaol gan ei fod yn cyfeirio at y rym trawsnewidiol Llenyddiaeth wrth godi dyheadau a chaniatáu i bobl "ddianc a chysylltu", fel y dywed y llenor Cymreig clare e. potter. Siaradodd Cyn-Arlywydd Yr Unol Daleithiau, Barack Obama, am y modd y teimlai fel alltud pan oedd yn blentyn a sut:

"Roedd y syniad fod y bydoedd cludadwy hyn, oedd ar agor i mi, hefyd yn eiddo i mi, yn apelio ataf."

--- Barack Obama

Y pwynt yw, waeth pa faint bynnag o dlodi sydd yn eich cefndir, mae dysgu darllen yn agor y drws i fyd o bosibiliadau newydd. Mae hawl gan blant yng Nghymru, beth bynnag fo'u cefndir, i fod yn fôr-ladron, yn smyglwyr, yn Twm Siôn Cati, neu Blodeuwedd - a gallent fod yn hynny, trwy lyfrau a thestunau eraill.

Mae'r bardd a'r perfformiwr Aneirin Karadog wedi disgrifio sut y bu iddo ddarllen llenyddiaeth Gymraeg a Chymreig, ac i hynny gynyddu ei wybodaeth am y byd ac am Gymru – ei hanes a'r materion sy'n ymwneud â hi. Mae'n bwysig cofio i Jane Austen ddisgrifio llythrennedd fel:

"Gwaith y mae pwerau'r meddwl mwyaf yn cael eu harddangos ynddo, lle mae'r wybodaeth mwyaf trylwyr o natur ddynol, y darluniad hapusaf o'i amrywiaethau, yr allrediadau bywiocaf o ffraethineb a hiwmor, yn cael eu cyfleu i'r byd mewn iaith a ddewiswyd yn hynod ofalus. "

--- Jane Austen

Sgil-gynnyrch anochel darllen yw ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth. Yng Nghymru, mae gennym gyfoeth o Lenyddiaeth yn y ddwy iaith, y dylai pawb gael mynediad ato, gan fod ein hawduron yn ein helpu i'n diffinio ni fel unigolion, fel cymunedau ac fel cenedl. Byddai colli mynediad at hyn yw tanseilio pwy ydym ni'n bersonol, yn ddiwylliannol ac yn genedlaethol. Mae hefyd, fodd bynnag, ddyletswydd ar athrawon i gyflwyno i bob ifainc y goreuon o lenyddiaeth o bob cwr o'r byd yn ogystal, fel y gall disgyblion agor eu meddyliau i fyrdd o safbwyntiau, persbectifau a syniadau.

Yng Nghymru, mae cysylltiad annatod rhwng llenyddiaeth a'r naratif diwylliannol. Mewn sawl lle, mae llenyddiaeth yn rhan naturiol o fywyd pob dydd pobl – mae eisteddfodau a'r Eisteddfod Genedlaethol, cystadlaethau cymunedol ac awduron eu hunain yn chwarae rhan amlwg ym mywyd pob dydd pobl. Mae Cynllun Nawdd Awduron Ar Daith, sy'n cael ei reoli gan Llenyddiaeth Cymru, wedi bod yn rhedeg ers dros 30 mlynedd. Fodd bynnag, mae yna ormod o leoedd o hyd lle nad yw llenyddiaeth o Gymru yn eu cyrraedd. Dylai rôl ysgolion a llyfrgelloedd fod yn ganolog i sicrhau bod gan bob person ifanc fynediad a chyfle cyfartal i ddod i gysylltiad â ac i fwynhau ein treftadaeth lenyddol.

Wrth baratoi i gyflwyno argymhellion 2016 Donaldson, mae gennym gyfle i aildrefnu ac ailffocysu ein sylw ar ddarllen testunau. Mae Cymraeg a Saesneg, fel pynciau, mewn sefyllfa

unigryw i gyfrannu at bedwar diben y cwricwlwm, fel y nodir yn nes ymlaen yn y papur. Fodd bynnag, mae Llenyddiaeth hefyd yn cyfrannu at faes y Celfyddydau Mynegiannol ac i'r Dyniaethau. Mae hyn yn tystio i bŵer Llenyddiaeth fel grym addysgol, a dyna pam y mae Obama wedi disgrifio darllen fel y "sgil mynediad sy'n gwneud popeth yn bosibl" a pham mae George RR Martin wedi dweud fod "darllenydd yn byw mil o fywydau cyn iddo farw".

Mae plant Cymru o'n hardaloedd mwyaf difreintiedig yn dal i gael trafferth i gaffael iaith a sgiliau darllen. Mae'n bwysicach nag erioed fod gan blant Cymru, beth bynnag fo'u cefndir, fynediad at ddeunyddiau darllen priodol, a'u bod yn cael eu cymell i wella'r sgiliau hynny. Mae sefyllfa Cymru yn unigryw, gan fod ein cyhoeddwyr a'n hawduron yn gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae gennym draddodiad cryf o areithio, ac un o osodiadau Cicero ar gyfer llwyddiant wrth greu araith oedd sicrhau fod dyfyniadau gan eich hoff awduron ar flaenau eich bysedd. O'ch arfogi gyda hyn, mae modd creu araith lwyddiannus.

Bellach, nid oes gennym draddodiadau siarad o'r pulpud, astudiaeth Feiblaidd, a dadansoddi testunol o'r fath, ac mae cymunedau yn fwyfwy toredig ac wedi ymbellhau oddi wrth eu treftadaeth. Mae'n bwysicach nag erioed, ar y groesffordd hon, fod grym darllen i lunio meddyliau, calonnau a dychymyg yn cael ei gydnabod yn llawn. Fel y dywedodd Aristotle, 'Nid yw addysgu'r meddwl heb addysgu'r galon yn addysg o gwbl.'

## 2. Pam fod Llenyddiaeth yn bwysig a sut y gall gyfrannu at daith yr unigolyn?

" Mae Llenyddiaeth yn bwysig oherwydd ... ei fod yn caniatáu profiadau sy'n bwysig i fyw bywyd dynol soffistigedig a boddhaol; oherwydd na all meysydd eraill o ddiwylliant eu darparu i'r un graddau; ac oherwydd bod nifer gymharol fach o destunau yn cyflawni'r swyddogaethau hyn mewn modd mor eithriadol, mae'n ddyletswydd arnom, er parch at aelodau o'r ddynolryw sydd wedi bod ac sydd i ddod, i gadw'r testunau hyn yn fyw yn ein traddodiadau diwylliannol "

--- F.B. Farrell

Mae cysylltiad annatod rhwng darllen, ysgrifennu a siarad. Mae'n driawd lle na ellir eu gwahanu heb ganlyniadau arswydus. Mae ein darllen yn porthi ein hysgrifennu. Mae angen modelau ac ymwybyddiaeth o dechnegau arnom i wella sgiliau ysgrifennu, ac mae hefyd arnom angen sgiliau i

ddarllen rhwng y llinellau, i ddeall naws, ac i allu gwneud penderfyniadau craff. Camgymeriad yw meddwl mai trwy lyfrau ffeithiol ac/neu iaith swyddogaethol y mae modd codi'n ymwybyddiaeth o newyddion ffug neu sut y caiff ffeithiau eu gwyrddroi. Wrth ddarllen, rydym yn dysgu sut i edrych am ystyr ymhlyg a chasgliadol. Rydym yn dechrau gallu darllen symbolau, gwneud cysylltiadau, dod o hyd i themâu, a dysgu am gymeriadau:

"Mae angen i blant ddod yn awdur a chynulleidfa trwy roi a derbyn ymatebion diffuant sy'n gwerthfawrogi eu lleisiau a'u dewisiadau. Trwy'r rhyngweithio hyn maent yn mynegi eu hunain ac yn adeiladu hunaniaeth"

--- Anderson & Briggs

Mae darllen llenyddiaeth yn ehangu sgiliau meddwl, ac yn cyfrannu at hunaniaeth, ac mae'r ddau ohonynt yn bwysig i ddinasyddion mewn democratiaeth. Yn nofel Harper Lee, *To Kill a Mockingbird*, mae Atticus Finch yn dweud wrth ei ferch:

"Dydych chi ddim yn deall rhywun yn iawn tan i chi ystyried pethau o'i safbwynt ef [...] tan i chi ddringo i mewn i'w groen a cherdded o gwmpas ynddo"

---Harper Lee

Mewn byd o drolio ar y rhyngwrwyd, postio pethau llawn casineb a rhagfarnau cynyddol, mae'n bwysicach nag erioed bod rôl Llenyddiaeth yn cael ei bwysleisio fel cyfrwng i ddysgu empathi, trwy gysyniadau megis safbwynt, lleoli cymeriad, a rhyddhau emosiynol. Mae llenyddiaeth yn ysgogiad unigryw ar gyfer trafod ac ystyried deunyddiau a phynciau anodd. Mae'r bardd o Gymru clare e. potter yn sôn am ddod ar draws cerdd Vernon Scannell, 'A Case of Murder,' pan oedd hi'n 11 oed, a sut y gwnaeth sbarduno ei diddordeb a'i hangerdd am ddarllen. Mae cerdd gan y bardd Cymraeg, Aneirin Karadog, am fod yn gaeth i gyffuriau ar y maes llafur Cymraeg. Yn ogystal â bod yn gerdd wych, mae'n sbarduno trafodaeth am bwnc anodd. Mae llenyddiaeth, o natur, yn delio â phroblemau bywyd, marwolaeth, perthnasau, colledion, buddugoliaethau a materion cymdeithasol.

Mae'r gallu i gyfathrebu yn hanfodol ar gyfer ein cysylltu ag eraill. Mae cyfleoedd i ymuno a datblygu sgiliau siarad yn hanfodol, ac un ffordd o wneud hynny yw annog siarad trwy ddarllen. Mae llwyddiant darllen dialogaidd yn yr Unol Daleithiau, lle mae plant ifanc yn cael eu hannog i ddweud storïau yn eu ffordd eu hunain, gan siarad trwy'r lluniau, ac ail-adrodd i rywun arall fanylion y



naratif – mae hyn yn hwb i hyder a dealltwriaeth. Trwy chwarae rôl, trafodaeth ac ysgrifennu, gall disgyblion ddelio â materion heriol, sy'n anodd eu hwynebu mewn bywyd. Mae'n bwysig pwysleisio, fel gwnaiff yr awdur ffuglen Ursula Le Guin, fod darllen yn antur ac yn hwyl; mae'n galw ar y darllenydd i fynd i agor drws y dychymyg, cysylltu â chymeriadau, a defnyddio eu holl sgiliau didynnol, rhesymiadol a greddfodol i greu ystyr. Ar ben hynny, gall y llyfr aros ym mhen y darllenydd, gan ddylanwadu arnynt am flynyddoedd maith.

Mewn cerdd a gomisiynwyd i ddathlu 25 mlynedd o Dechrau Da, ysgrifennodd Casia Wiliam, Bardd Plant Cymru:

“Mae stori'n fwy gwerthfawr nac arian nac aur;  
ar ôl clywed stori cei gadw bob gair”

## 2.1 Rôl arbennig barddoniaeth

“Mae Barddoniaeth yn ddarganfyddiad arbennig i fyfyrwyr llai breintiedig fel dull mynegiant, ac yn ffordd ddefnyddiol o ddysgu darllen yn fanwl, darganfod ystyr ac ysgrifennu am eu bywydau gyda phŵer a huodled”  
---Zoe Brigley

Mae'r traddodiad barddol, gyda chymhlethdodau cynghanedd, yn unigryw i'r Gymraeg, ac i farddoniaeth Gymraeg. Mae Eisteddfodau wedi bod yn hanfodol wrth gynnal y traddodiad hwnnw, ac wrth annog perfformio barddoniaeth ar lafar. Mae Aneirin Karadog wedi sôn am y traddodiad llafar hwn, ac mae'n ei gynnal trwy ei waith ei hun. Mae ei gyfraniad at ymgyrch hysbysebu Nationwide yn dangos pŵer y gair lafar, lle mae ei gerdd yn y Gymraeg, ar y cyd ag Eurig Salisbury, wedi'i glywed heb gyfieithiad gan filoedd dros Brydain. Mae Clare E. Potter ac Aneirin Karadog wedi siarad am eu profiadau yn yr Unol Daleithiau, ble gwelsant sut mae Llenyddiaeth, yn enwedig barddoniaeth, yn ei holl ffurfiau, wedi trawsnewid bywydau plant sy'n byw mewn tloedi enbyd. Mae'r dull hwn wedi bod yn llwyddiannus yn yr ymdrechion i gau bylchau mewn dysgu, gan fod plant yn cael eu hysbrydoli i ddod yn awduron eu hunain, ac i edrych ar dechnegau awduron eraill gydag awch angerddol. Ysgrifennodd Rubinstein:

"Yn wir, dengys arolygon, arsylwadau ystafell ddosbarth a chyfweliadau gyda myfyrwyr ac athrawon fod yna berthynas rhwng y rhaglen farddoniaeth a gwelliannau mewn ffigyrau

presenoldeb myfyrwyr, mewn sgoriau profion iaith, mewn cymhelliant, mewn agweddau tuag at lythrennedd, mewn sgiliau cymdeithasol, mewn hunanhyder, ac (ar gyfer dysgwyr Saesneg) caffael iaith"

--- Rubinstein

Mae'r pwyslais ar farddoniaeth fel traddodiad llafar hefyd yn ganolog i lenyddiaeth gyfoes America, yn enwedig mewn cymunedau Affricanaidd Americanaidd a chymunedau Latino. Math o farddoniaeth lafar sy'n canolbwyntio ar bŵer y llais, mewn perfformiad sy'n aml yn wleidyddol ac yn heriol yw barddoniaeth slam, ac mae'n hynod boblogaidd mewn ysgolion a phrifysgolion ar draws yr Unol Daleithiau. Mae hwn yn draddodiad a allai eistedd yn gyfforddus o fewn cyd-destun Cymreig. Mae Sion Tomos Owen wedi sôn am bŵer barddoniaeth slam, gan ddisgrifio clywed y bardd, Joelle Taylor yn cyflwyno ei cherdd 'Crystal Kisses', a'i effaith emosiynol arno. Roedd Taylor yn cyflwyno gweithdy yng Nghaerdydd ar ran Llenyddiaeth Cymru fel rhan o SLAMBassadors UK, sy'n defnyddio barddoniaeth i roi llais a llwyfan i bobl ifanc ar gyrion cymdeithas. Disgrifiodd y profiad fel:

"Meithrin creadigrwydd mewn pobl ifanc a rhoi'r adnoddau iddynt adeiladu barddoniaeth o'u profiadau, boed hynny o sylfeini cadarn neu rwbel eu gwytnwch"

---Sion Tomos Owen

Mae'r neges yn un rymus, gan ei fod yn rhoi llais i'r bobl hynny sy'n teimlo'n ddiymadferth, gan ddarparu gobaith ac uchelgais.

Dylai Barddoniaeth fod wrth wraidd addysg Saesneg a Chymraeg, gan fod y gwirioneddau sydd mewn barddoniaeth yn symbolaidd, ac yn ein helpu i weld ein hunain, yn benodol fel Cymry yn y byd, mewn ffyrdd newydd a diddorol. Mae'n ddyletswydd ar bob athro ac athrawes Cymraeg a Saesneg i arfogi eu disgyblion gyda'r technegau i ddeall barddoniaeth. Trwy greu metaffor o'n profiadau rydym yn deall natur iaith, ac yn goleuo ein bywydau. Roedd Dylan Thomas, Dic Jones a David Jones i gyd yn gweld eu hunain fel crefftwy: 'seiri cân'. Mae'r trosiad yn ddefnyddiol gan ei fod yn cydnabod bod testunau yn ddeunyddiau y gellir eu hystyried, eu harchwilio a'u defnyddio at ddibenion gwahanol y disgybl. Wedi astudio barddoniaeth Gymreig ac ysgrifennu cerdd fel ymateb i hynny, ysgrifennodd un o fyfyrwyr yr awdur Jude Brigley ati a dweud ei fod 'fel dyn, yn cerfio siâp, a oedd yn cael ei docio a'i hogi nes i strwythur ddod i'r amlwg.' Roedd wedi deall natur ysgrifennu trwy ddadansoddiad manwl, ac wrth ddyngu trwy wneud. Mae rhai meddylwyr yn enwi

Aristotle fel eu hathro delfrydol, ac mae'n profi ei fod yn gyn-gyrchwr o ddysgu trwy brofiad pan mae'n ysgrifennu:

"Unrhyw beth y mae'n rhaid i ni ddysgu ei wneud, rydym yn dysgu trwy ei wneud..."

---Aristotle

Fel athrawon y pynciau Cymraeg a Saesneg, dyma gynsail y byddai'n talu i ni ei gofio. Mae yna gyfoeth o ddeunyddiau cyhoeddedig ac adnoddau digidol ar gael. Rhestrir rhai enghreifftiau yn yr Atodiad.

## 2.2 Y daith ddarllen

“... yn y darn rhwng gwyn a du  
mae egin pob dychmygu ...”

--- Mererid Hopwood

Mae llawer o ddarllenwyr lwcus, wrth siarad am ddysgu darllen, yn siarad am gael 'eu dal' neu o leiaf *dal ar* yr hyn y mae'n ei olygu. Nid yw hyn felly i bawb. Os yw disgyblion yn cael 'eu dal', neu yn ei chael yn anodd, mae'n amlwg bod angen i athrawon gyflwyno strategaethau penodol. Mae meddwl yn adeiladol, wrth ddefnyddio cliwiau a chiwiau, yn elfen hanfodol o ddarllen yn dda. Pan fyddwn yn cysylltu â'r hyn yr ydym yn ei ddarllen, trwy emosiwn, chwilfrydedd neu hiwmor, mae darllen yn allweddol i brofiadau dysgu dwfn. Ni ddylai'r pwyslais ar lythrennedd ein dallu i rôl y dychymyg wrth ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu.

Mae addysgwyr megis Sandy Brownjohn a'r awdur hwn Jude Brigley wedi dangos sut gellid defnyddio llenyddiaeth y dychymyg a barddoniaeth yn benodol, i arddangos mecaneg iaith. Mae'r prosiect TwLetteratura yn annog disgyblion i ddarllen mwy, i ymateb i gemau ysgrifennu, ac yn dysgu sut i wneud a gofalu am gynnwys digidol. Mae'n ffurfio cymuned sy'n darllen ac yn rhoi sylwadau ar lyfrau drwy'r app *Betnyll*. Mae angen i athrawon ystyried sut y gall y modelau a ddarperir trwy ddarllen a dehongliad agos o destunau gyfrannu at ddatblygiad llythrennedd. Mae'r bardd a'r awdur plant nodedig, Michael Rosen wedi siarad yn barhaus am bwysigrwydd annog darllenwyr annibynnol sy'n mwynhau llyfrau. Mae dewis testun yn hanfodol wrth ennyn diddordeb y dosbarth, ac mae'n bwysig rhoi'r pwyslais ar bleser darllen os ydym am annog dysgwyr annibynnol. Mae Adroddiad UKLA (2010) yn nodi, yn blwmp ac yn blaen, yr hyn a fyddai'n gwella darllen:

"Os ydym am i blant wella'u darllen, ac iddynt wneud mwy ohono, mae'n rhaid i ni eu bwydo ar ddietau deniadol, maethlon fydd yn eu bodloni"

---Adroddiad UKLA (2010)

Dyma'r her o ddysgu darllen. Mae Cynan Llwyd wedi ysgrifennu:

"Rydw i am weld plant a phobl ifanc yn mwynhau ac yn cael eu hudo gan y cyffro sydd gan straeon: straeon a fydd yn eu harwain at eu amser breuddwydio eu hunain"

---Cynan Llwyd

### 2.3 Sut y gall cysylltu ag awduron a'u harferion gefnogi darllen?

Er bod cyfoeth i'w gael o astudio gwaith beirdd ac awduron marw, mae cael mynediad i awduron byw, yn enwedig y rhai sy'n dod o'ch cymuned chi, yn hwb pwerus i uchelgais. Mae Pullman yn deall hyn pan ddywed:

"Mae ei gwneud hi'n bosibl i blant ysgol gwrdd ag awdur proffesiynol (nid wyf yn dweud awdur 'go iawn', gan fod plant yn awduron go iawn hefyd) yn un o'r ffyrdd gorau o'u hannog i feddwl bod gan ysgrifennu bwrpas, ei fod yn dod â phleser ac y gall fod yn fodd o wneud darganfyddiadau cyffrous a bod yn ffynhonnell o foddhad parhaol. Mae hefyd yn ysgogiad gwych i ddarllen"

--- Philip Pullman

Mae yna lawer o gyfleoedd i fyfyrwyr gwrdd ag awduron yng Nghymru:

- **Awduron ar Daith**

Trwy gynllun 'Awduron Ar Daith' Llenyddiaeth Cymru, mae nawdd ar gael i wahodd awduron i ysgolion, er mwyn cynnal gweithdai a darlenniadau i ysbrydoli disgyblion i ddarllen ac ysgrifennu. Cânt hefyd y cyfle i holi awduron am eu crefft, a sut i fod yn awdur proffesiynol. Ar ôl clywed yr awdur Robert Minhinnick yn darllen ei waith ac yn ateb cwestiynau, dywedodd un myfyriwr, "Rwy'n mynd i ddarllen gweddill ei waith, gan ei fod wedi fy ysbrydoli'n llwyr". Hyd yn oed heb y nawdd penodol hwn, gellir trefnu bod awdur

yn ymweld â'r dosbarth os yw'r ysgol yn medru rhoi blaenoriaeth i ariannu digwyddiadau o'r fath. Pan ymwelodd Zoe Brigley ag ysgol a'i chyfweld gan y disgyblion, gwnaeth argraff mawr arnynt – cymaint hynny tan y gwnaeth un o'r disgyblion ysgrifennu erthygl amdani ar gyfer cylchgrawn *Oxford Student* ac aeth un arall ymlaen i ysgrifennu traethawd hir am ei gwaith. Mae awduron yn argymhell deunydd darllen nad yw'r athro efallai yn ymwybodol ohono. Os bydd Mererid Hopwood yn ymweld ag ysgol, ac yn sôn am rai o'i hoff feirdd hi, mae'r disgyblion yn fwy tebygol o geisio dod o hyd i'w hargymhellion.

- **Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

Mae Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yn lleoliad delfrydol ar gyfer neulltio amser penodol er mwyn ymarfer y grefft o ysgrifennu / darllen, ac mae'r hyn a gynigir mewn cwrs preswyl yn amlwg o fudd i ysgolion. Dywedodd grŵp o ddisgyblion blwyddyn 9 a oedd yn gweithio gyda'r awduron Paul Henry a Menna Elfyn, fod y profiad "wedi newid eu bywydau". Fe wnaethant barhau i ysgrifennu barddoniaeth, gan ennill gwobr categori grŵp yn y National Poetry Competition, a gwobrau pellach mewn cystadlaethau er enghraifft y Darfur a Gwobr Heddwch Caerdydd. Dewisodd pob un ohonynt astudio Lefel A mewn Saesneg ar ôl ennill o leiaf gradd A mewn TGAU Llenyddiaeth ac Iaith. Dywedodd un ohonynt, "Rydw i wedi dod yn ddarlennydd awchus diolch i Tŷ Newydd". Yn ogystal â mwynhau perfformiadau awduron wrth iddynt ddod i'r ysgol, gall ddisgyblion hefyd elwa o ddysgu dulliau perfformiadol eu hunain, ac ymarfer y grefft honno o flaen cyfoedion mewn amgylchedd sâff a chefnogol.

## **2.4 Rôl cynnwys digidol a llyfrgelloedd**

Mae rhywfaint o gynnwys ar-lein o feirdd yn darllen eu gwaith. Mae tudalen Devolved Voices' Prifysgol Aberystwyth yn rhoi blas o'r hyn sydd ar gael a gallai fod yn ddefnyddiol yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r beirdd Aneirin Karadog ac Eurig Salisbury wedi sefydlu'r podlediad misol Clera sy'n trin a thrafod pob math o faterion barddol Cymraeg cyfoes, ac mae'r naws hwyliog yn hynod addas ar gyfer disgyblion ysgol. Ar hyn o bryd, nid oes toreth o ddeunydd llenyddol perthnasol i Gymru arlein, ac nid oes gwefan bersonol gan y rhan fwyaf o awduron. Yn sicr mae hon yn faes i'w datblygu ymhlith ysefydliadau perthnasol er mwyn sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad i leisiau llenyddol cyfoes.

Mae'n werth nodi bod gan lyfrgelloedd ran fawr i'w chwarae o hyd wrth annog darllen. Mae Rajvi Glasbrook-Griffiths wedi sôn am lyfrgell yr ysgol, gan ei galluogi i 'ymagor y byd', a sut y gwnaeth cael mynediad i lenyddiaeth roi cyfle cyfartal iddi.

"Gall Google ddod â 100,000 o atebion i chi. Gall llyfrgellydd ddod â'r ateb cywir i chi."  
--- Neil Gaiman

Mae gan y llyfrgellydd rôl bwysig yn:

- darparu llyfrau addas;
- cynghori ar beth i'w ddarllen;
- a chreu'r awyrgylch cywir ar gyfer darllen.

Dylai plant fod yn rhan o'r broses honno..

## 2.5 Sut gall Llenyddiaeth gyfrannu at Lythrennedd?

"Mae yna beryglon wrth weld llythrennedd fel unig agwedd ddefnyddiol [y pwnc]. Mae hyn wedi cadw sylw athrawon ar yr angen i bwysleisio ei agweddau rheoli, sillafu, gramadeg a chael y geiriau'n iawn, yn hytrach nag ar ei nodwedd all ryddhau person - ymarfer y dychymyg "  
---Margaret Meek.

Tan yn ddiweddar, roedd gan Llenyddiaeth Saesneg yr un statws â Iaith Saesneg. Mae colli statws wedi golygu bod rhai ysgolion wedi gwneud i ffwrdd â'r pwnc ar gyfer myfyrwyr llai galluog, gan amddifadu'r rhai mwyaf bregus o'r cyfle i gael mynediad i'w treftadaeth a'u hawl. Mae'r athro Rajvi Glasbrook-Griffiths wedi gwneud sylwadau ar hyn trwy ddweud:

"Efallai nad yw Llywodraeth Cymru wedi sylweddoli canlyniadau anfwriadol mesur data perfformiad yn y modd hwn."  
---Rajvi Glasbrook-Griffiths

Mae'n werth nodi bod Llenyddiaeth Saesneg a Chymraeg yn ddau o'r pynciau TGAU prin hynny, os nad yr unig bynciau TGAU, sy'n gofyn am draethawd strwythuredig fel ateb, ac mae hyn wrth gwrs yn arwydd clir o lythrennedd ar waith. Mae'r israddio hwn yn gadael llawer o athrawon yn

ansicr ynglŷn â sut i symud ymlaen, ac mae angen cefnogaeth arnynt trwy gyfrwng enghraifft i ddangos sut mae llythrennedd, a darllen ac astudio Llenyddiaeth, yn plethu gyda'i gilydd.

Mae hyn yn dod â ni at y cyntaf a'r ail o'r tair ardal y mae'r papur hwn yn amlinellu: gwybodaeth graidd/cysyniadau, sgiliau a chymwyseddau cysylltiedig; a'r dilyniant rhwng y rhain. Wrth drafod yr astudiaeth o destunau mae'n hanfodol i feddwl am nodweddion darlennydd gwirioneddol dda - y cynnyrch gorffenedig fel petai. Bwriad y rhestr isod (a gwelwch Atodiad 2) yw ysgogi'r meddwl ac nid yw'n restr cynhwysfawr o bell ffordd. Mae'n ystyried perthynas y disgybl â'r testun, yn hytrach na gosod meini prawf technegol anhyblyg arnynt:

### **Gwybodaeth / cysyniadau craidd a sgiliau a medrau cysylltiedig, mewn dilyniant:**

5 oed, Rwy'n medru :

- Mwynhau darllen
- Dewis fy nhestunau fy hun ar gyfer darllen pellach
- Defnyddio cliwiau fel penawdau, lluniau a siartiau i arwain fy narllen
- Adnabod emosiynau megis hiwmor neu ddwyster

8 oed, Rwy'n medru:

- Gweld yr hyn rydw i'n ei ddarllen yn llygad fy meddwl
- Parhau â'r stori yn fy mhen
- Gwneud cysylltiad gyda'r testun ac yn 'dianc' i mewn iddo
- Colli deigrin, chwerthin, teimlo'n drist neu'n hapus wrth ddarllen.

11 oed, Rwy'n medru :

- Cadw'r hyn a ddarllenais yn fy nghof er mwyn i mi allu ail-adrodd neu ddysgu eraill
- Dewis gwybodaeth sy'n berthnasol ar gyfer fy anghenion
- Trafod yr hyn rwy'n ei ddarllen gydag awch a brwdfrydedd
- Cysylltu'r wybodaeth gyda fy mhrofiad fy hun

14 oed , Rwy'n medru:

- Defnyddio gwybodaeth flaenorol o destunau, neu thema, i gael gafael ar wybodaeth
- Anghytuno â thestun ac yn teimlo'n amheus ynglŷn â'r hyn y mae testunau'n ei ddweud

- Gwneud casgliadau a darllen rhwng y llinellau
- Ymwybodol o ymdrechion yr awdur i ddwyn perswâd arnaf

16 oed, Rwy'n medru:

- Cael deialog mewnl gyda fy hun ac/neu'r awdur
- Ymdrwytho ymadroddion neu linellau arwyddocaol a'u cofio
- Defnyddio ystod o dechnegau sganio, sgimio a darllen gofalus, yn dibynnu ar ffocws neu bwrpas
- Defnyddio gwybodaeth y bu i mi ei ddarllen ar gyfer tasg arall

Mae datblygu sgiliau darllen da yn fodd i ddysgu sgiliau llythrennedd wrth gwrs. Rhestrir rhai enghreifftiau nodweddiadol o weithgareddau darllen sy'n helpu llythrennedd yn Atodiad 3. Mae'n bwysig wrth ddatblygu enghreifftiau fod yna gydbwysedd rhwng astudio testunau Cymraeg a Saesneg, a rhai o ddiwylliannau eraill, boed yn gyfoes neu'n glasurol. Dim ond trwy wneud hynny y bydd y deunydd darllen yn adlewyrchu milltir sgwâr y disgybl, yn ogystal â'i le ehangach ef neu hi yn y byd.

Mae'n werth ystyried y pedwar math o ddarllen:

- Sgimio
- Sganio
- Darllen er gwybodaeth
- Darllen gyda dyfnder lle cyflawnir y nod o gael 'llif'.

Mae'r pedwar agwedd yn rhan o repertoire darlennydd da, ac mae eu hangen wrth ddarllen ffuglen sy'n tanio'r dychymyg. Mae sgimio yn ffordd o fwrw golwg dros destun trwy edrych ar ei siâp, y clawr, y broliant neu enwau'r penodau. Dyma sut yr ydym yn asesu testun pan ddaw i'n dwylo am y tro cyntaf. Nid ydym yn eistedd i lawr ac yn dechrau darllen o dudalen rhif un. Efallai y byddwn yn defnyddio techneg sganio i edrych ychydig yn agosach, er enghraifft, os ydym am wybod a yw ein hoff awdur yn ysgrifennu am gymeriad yr ydym eisoes yn ei adnabod, neu os yw'r dudalen gyntaf yn ennyn ein diddordeb. Nid ar gyfer testunau ffeithiol yn unig y mae darllen er gwybodaeth yn cael ei ddefnyddio. Os ydym yn astudio nofel, drama neu gerdd, wedi i ni ddarllen y testun, efallai y byddwn yn chwilio am batrymau neu ddyfyniadau am gymeriad neu thema. Y ffurf uchaf



o ddarllen, fodd bynnag, yw pan fydd llif yn digwydd, ac rydym yn cael ein cludo i fyd nofel neu'n cael ein hudo gan gerdd. Mae angen yr holl sgiliau hyn arnom wrth astudio Llenyddiaeth.

## 2.6 Pleserau darllen a dysgu

Felly bawb, os ych chi'n medru,  
Ceisiwch daflu eich teledu,  
Ac yn ei le, rhowch silff o lyfrau.  
Anwybyddwch y sgrechiadau.

---Cân yr Wmpalwmpas yn Charlie a'r Ffatri Siocled gan Roald Dahl. Cyfieithiad Elin Meek

Nid yw ysgrifennu a darllen yn dasgau beichus. Maent yn rhai o bleserau mawr bywyd. Y prif reswm yr ydym yn darllen ac yn parhau i ddarllen yw ei fod yn dod â llawenydd i ni. Os nad yw plant yn cael profiadau o ddarllen sydd yn dod â phleser a mwynhad iddynt, yna mae'r teimlad hwnnw yn parhau trwy gydol bywyd. Mae hwn yn gyfrifoldeb sylweddol ar ysgwyddau athrawon. Yn ôl arolygon (ee Sefydliad Jacobs, 2016), mae plant a phobl ifanc Prydain ymhlith y rhai mwyaf anhapus yn Ewrop, ac er fod rhesymau cymhleth tu ôl i hynny, mae sawl astudiaeth wedi dangos perthynas rhwng dedwyddwch a darllen. Dywed yr awdur o Awstralia, Ceridwen Dovey:

Mae darllenwyr cyson yn cysgu'n well ac mae ganddynt lefelau is o straen, lefelau uwch o hunan-barch, a lefelau is o iselder na phobl sydd ddim yn darllen.

--- Ceridwen Dovey

Mae hyn yn bwysig ac yn cadarnhau ymchwil yr awdur Jude Brigley, a ganfu fod astudio barddoniaeth yn gwneud myfyrwyr ifanc yn hapusach. Fel y dywedodd un o'i myfyrwyr: "Mae bod yn greadigol yn fy ngwneud i'n hapus".

Mae gan bob blentyn yr hawl i fwynhau darllen, ac fel y dywedodd Margaret Meek: "Mae cyfrinachau mawr yn llechu tu fewn i lyfrau". Mae'r mwynhad sydd i'w gael wrth ddarllen testunau gwirioneddol greadigol ac arloesol weithiau yn dod â hapusrwydd, ond hefyd yn esgor ar well dealltwriaeth o sut mae iaith yn gweithio. Mae Pullman yn nodi:

"Yn ôl pob sôn, ddywedodd yr awdur Samuel Johnson erioed y geiriau hyn, ond fe wnaeth rhywun, ac mae'n parhau i fod yn hollol wir: 'Gwir nod ysgrifennu yw galluogi'r darlennydd i gael rhagor o fwyniant allan o fywyd, neu i'w alluogi i'w oddef yn well."

---Philip Pullman

Datgelodd ymchwil diweddar a gynhaliwyd gan y Reading Agency y gall darllen gynyddu ein empathi, gwella cysylltiadau, lleihau iselder, a rhoi hwb i'n lles. Y pŵer hwn sy'n gwneud darllen yn ddeinamig, ac yn arf i addysgu mewn modd hollol gyflawn. Mae darllen yn ymestyn ein gwybodaeth a'n hymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd rhwng y llinellau. Mae'n ein galluogi i werthfawrogi'r haenau a'r cynildeb sydd ar waith yn nwylo awdur celfydd. Gallai fod yn ddefnyddiol meddwl am yr hyn y byddem yn disgwyl i ddisgyblion allu ei wneud ar ôl proses o ddysgu ac addysgu. Ysgrifennodd M. Ratcliffe am bwysigrwydd seicolegol naratif ar gyfer ein lles:

"pan mae naratif yn cael ei rannu rhwng dau barti, mae'n creu rhyw fath o bont rhyngthynt sy'n eu cynorthwyo i ddeall a dehongli. Gan hynny, mae cydnabod gwahaniaeth yn cael ei addurno trwy werthfawrogiad ychwanegol o rannu profiadau"

---M. Ratcliffe

Mae hyn yn bwysig i les a diogelwch ein plant. Yn Atodiad 4 ceir ysgogiad i feddwl am yr hyn y mae angen i ddisgyblion allu dweud eu bod yn gallu ei wneud, yn yr enghraifft hwn, ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2.

## 2.7 Llafaredd

Mae gan Gymru dreftadaeth areithio unigryw sy'n dyddio'n ôl dros fil o flynyddoedd. Mae'r hanes diwylliannol hwn yn cwmpasu canu mawl canoloesol, pregethwyr mawr y Diwygiad, siaradwyr cyhoeddus chwyldroadol, a thrafodaethau tanllyd. Ysbrydolwyd Merched Beca, Y Siartwyr, Comiwnyddion, protestwyr Tonypany, ymgyrchwyr yr iaith, a glöwyr yr 1980au, oll i frwydro dros eu hachosion trwy eiriau tanllyd eu harweinwyr. Mae'r traddodiadau yn perthyn i ddiwylliant dosbarth gweithiol Cymru – o gaeau amaeth i sefydliadau'r gweithwyr, o gae chwarae i'r capel, o'r mynydd i'r dafarn – gallech glywed areithiau angerddol, pob un yn cydblethu rhythm barddonol a'r gallu i chwarae ar eiriau.

Gellir dadlau mai un o'r trysorau mwyaf a gawsom yn sgîl yr hen draddodiad hwn oedd y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol, a grëwyd gan un o areithwyr enwocaf Cymru, Aneurin Bevan.

Gwnaed hyn yn bosibl trwy gyfraniad areithiwr gwleidyddol arall dawnus Cymraeg, David Lloyd George, a gyflwynodd ddiwygiadau a arweiniodd at greu'r Wladwriaeth Les a rhoi'r hawl i ferched bleidleisio. Ar ddiwedd yr 20fed ganrif, cyflwynodd Elaine Morgan syniadaeth radical o ran hanes esblygiad oedd yn gosod menywod yn ganolog, gan deithio'r byd yn dadlau o blaid cydnabod rôl y fenyw yn ein gorffennol pell. Roedd Bevan, Lloyd George a Morgan i gyd yn gyfarwydd iawn â'r anghydraddoldeb a thlodi achoswyd i bobl Cymru, ac fe ddefnyddiasant eu sgiliau rhethregol eu hunain fel arf i ymladd anghyfiawnder.

Ymlaen i'r unfed ganrif ar hugain, ac mae rhethreg newydd yn bodoli. Mae pobl ifanc Cymru yn tan-berfformio. Yn cael eu cystuddio gan dlodi a materion iechyd meddwl, mae cenedlaeth y dyfodol yn cael ei ymddieithrio â'r byd o'u cwmpas ac wedi colli ei gysylltiad â'r gorffennol. Mae'n ymddangos bod ein traddodiad unigryw i orchfygu mewn sefyllfaoedd anodd trwy arweinwyr huawdl a charismatig wedi dod i ben. Tawelwyd tafod y ddraig, a oedd unwaith yn rhuo mor uchel.

Fodd bynnag mae'r gwirionedd y tu ôl i'r rhethreg newydd yn fwy cynnil. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae'r traddodiad areithio yn parhau i fod yn gryf, o adrodd barddoniaeth (rowndiau rhanbarthol Eisteddfod yr Urdd) i gystadlaethau siarad cyhoeddus Ffermwyr Ifainc. Ac o ystyried hefyd y byd digidol, gellid dadlau mai pobl ifanc yr unfed ganrif ar hugain yw'r genhedlaeth fwyaf huawdl a llythrennog erioed. Maent yn cyfathrebu'n gyson trwy ddrysfa o fforwmiaid, o gyfryngau cymdeithasol i gemau ar-lein, o dynnu coes cefnogwyr timau chwaraeon i greu ffilmiau byrion ar gyfer You Tube.

Mae'r ehangder ac amrywiaeth dulliau rhyngweithio digidol yn gallu darparu pyrth gwerthfawr i ddatblygu sgiliau pobl ifainc. Wrth hogi talent yn y gair llafar drwy'r dulliau sy'n cael eu defnyddio eisoes mewn ystafelloedd gwely ym mhob cwr o'r wlad, gellid adeiladu hunan-hyder, sgiliau cyfathrebu ac empathi, a all yn y pen draw arwain at drawsnewid cymdeithasol eang. Nid mater o gyfoeth a llwyddiant ariannol yw hyn, ond yn hytrach mae'n ymwneud â ffyniant cymdeithasol, diwylliannol a phersonol. A'r allwedd i hyn i gyd yw pwyslais llawer dyfnach ar grym y gair llafar, a hynny mewn nifer o bynciau, nid dim ond rhai llenyddol.

Mae hyn yn dod â ni at y trydydd o'r tri maes y mae'r papur hwn yn amlinellu: sut y gall y Cyfrifoldebau Traws-Cwricwlwm, sgiliau ehangach a dimensiwn Cymreig / safbwyntiau rhyngwladol gael eu hymgorffori mewn perthynas â llafaredd. Trwy defnyddio barddoniaeth llafar, adrodd straeon, cyfansoddi caneuon, creu comedi, blogio, dadlau am faterion gwleidyddol ac yn y

blaen i mewn i **bob un o'r Meysydd Dysgu a Phrofiad**, byddwn yn rhoi i'n plant a'n pobl ifanc y ffordd o fynegi yr hyn sy'n eu pryderu a'r rhesymau am y pryderon hynny yng Nghymru'r unfed ganrif ar hugain.

Wrth wneud hynny, rydym yn trosglwyddo'r grym i bobl ifanc i ddatblygu eu hyder a'u gallu eu hunain. Dylid creu ffocws arbennig i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn gor-bryder ymhlith pobl ifanc, a'r cynnydd mewn bwlio. Ers y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd yn 2016, mae'r achosion o droseddau casineb wedi tyfu ddeg gwaith. Mae straeon am gam-drin, yn gorfforol ac yn seicolegol, yn cael eu rhannu ar gyfryngau cymdeithasol ac adroddiadau am ddwsinau o achosion o ymosodiadau a bygythiadau yn erbyn lleiafrifoedd yn ymddangos yn y newyddion. Mae pobl yn dweud wrth eraill am 'fynd adref', mae siopau yn cael eu fandaleiddio, ac mae cymunedau yn byw dan gysgod ofn y cynnydd yn y grwpiau adain dde sy'n lledaenu eu efengyl casineb. Mae nifer o'r troseddau hyn yn cael eu cyflawni gan bobl ifanc – ac, yn eu tro, mae llawer o bobl ifanc hefyd yn ddiodefwr sy'n agored i niwed.

Nid yw'r cyfryngau confensiynol - teledu a phapurau newydd - yn berthnasol i lawer o bobl ifanc, sy'n teimlo nad ydynt yn eu cynrychioli. Gall deall ac ymarfer y technegau traddodiadol o rethreg arfogi pobl ifanc gyda'r sgiliau i fod yn feirniadol - i gwestiynu a herio'r canfyddiadau a honiadau sy'n ymddangos yn y cyfryngau prif-ffrwd.

Trwy gofleidio llafaredd yn y modd hwn, rydym nid yn unig yn edrych i roi llais i bobl ifanc Cymru a rhoi hwb i'n traddodiad areithio; ond hefyd yn hwyluso'r daith ar gyfer y genhedlaeth nesaf i sefyll i fyny a dod yn ddinasyddion balch a hydreus.

### 3. Siarter Llenyddiaeth

" Fel credwr angerddol yn nemocratiaeth darllen, nid wyf yn credu mai gwaith awdur llyfr yw i ddweud wrth y darlennydd beth mae'n ei olygu "

--- Philip Pullman.

Un cynnig i sicrhau darpariaeth o gyfleoedd darllen yw creu Siarter Llenyddiaeth; rhestr fyddai'n cynnwys yr hyn y gallai disgyblion ddisgwyl ei brofi, a beth y gellid disgwyl i athrawon ei ddarparu. Mae'r canlynol (a gweler Atodiad 5) yn llai na hollgynhwysol, ond mae'n fan cychwyn ar gyfer trafodaeth:

### Hawliau Darllenwyr Ifanc Cymru

Mae gan pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru yr hawl i ddisgwyl:

- brwdfrydedd ac ymdeimlad o lawenydd oddi wrth eu hathrawon darllen;
- anogaeth, cefnogaeth a dathlu llwyddiant wrth ddarllen
- cyflwyniad i lenyddiaeth o Gymru, a gweddill y byd, sy'n adlewyrchu eu cymuned a'u treftadaeth;
- cyfleoedd i gyfarfod a chlywed awduron cyfoes;
- dod ar draws ystod eang o destunau a all ysgogi diddordeb ac addysgu eu meddyliau;
- darllen ac ysgrifennu barddoniaeth wrth wraidd eu cwricwlwm;
- cael eu cyflwyno i destunau trwy lyfrgelloedd, y rhyngwrwd, y ddarpariaeth yn yr ystafell ddosbarth ac argymhelliad gan athro;
- cyngor ar beth i'w ddarllen nesaf ac argymhellion gan athrawon, cyfoedion, rhieni ac aelodau'r gymuned;
- cyflwyniad i destunau heriol drwy gefnogaeth a chymorth athrawon;
- dysgu am dechnegau awdur er mwyn cael dealltwriaeth ddyfnach o'r ystod o ddulliau wrth ddatblygu eu hysgrifennu eu hunain;
- cyfleoedd i siarad am lyfrau, trafod barn a rhannu syniadau gydag eraill;
- amser i fyfyrion a meddwl yn ddwys, weithiau mewn distawrwydd, am destunau;
- y profiad o ddysgu testunau ar gof a'u trochi ynddynt;
- ymdeimlad o'u hanes eu hunain, hunaniaeth, cymuned a chenedl trwy'r testunau a gyflwynir gan eu hathrawon.

Ar y llaw arall, mae cyfrifoldeb ar ysgwyddau athrawon. Bwriad y rhestr isod (a gweler Atodiad 6) unwaith eto yw i sbarduno trafodaeth.

### Cyfrifoldebau Athrawon Llenyddiaeth yng Nghymru

Dylai athrawon Llenyddiaeth:

- rannu eu llawenydd, eu pleser a'u brwdfrydedd am ddarllen yn y ffordd y maent yn cyflwyno testunau a siarad am eu darllen eu hunain;

- feddu ar wybodaeth am lenyddiaeth gyfoes i blant a phobl ifainc fel y gallant argymhell a dewis llyfrau addas ar gyfer dosbarth;
- fod wedi darllen cyfieithiadau o lenyddiaeth o Gymru a gwledydd eraill;
- fedru cyflwyno lenyddiaeth o Gymru sy'n adlewyrchu cymuned a threftadaeth y disgyblion;
- greu cyfleoedd i ddisgyblion gyfarfod a chlywed awduron cyfoes;
- osod barddoniaeth wrth wraidd y cwricwlwm;
- ddathlu llwyddiant a chreu amgylchedd diogel i gymryd risg gyda geiriau, darllen a pherfformiad;
- chwilio am ffyrdd i ddarparu amrywiaeth o destunau ar gyfer astudio unigol ac o fewn y dosbarth;
- ddarparu tawelwch ar adegau, i roi cyfle i ddisgyblion fyfyrion am destunau;
- ddefnyddio ystod o strategaethau i helpu disgyblion symud ymlaen i destunau heriol;
- ddarparu cyfleoedd i siarad am lyfrau;
- ddarparu ystod eang o gerddi i roi dewis i ddisgyblion ac annog dysgu ar gof;
- ddatblygu pecyn o ddulliau beirniadol i'w defnyddio wrth ddarllen testunau er mwyn rhoi geirfa feirniadol ystyrion i ddisgyblion;
- greu ystafell ddosbarth ble mae testunau yn bwysig.

### 3.1 Pedwar diben Donaldson a rôl Llenyddiaeth

Mae gan Llenyddiaeth rôl allweddol i'w chwarae o ran cyfrannu at bedwar diben Donaldson. Awgrymwyd hyn drwy gydol y papur hwn, ond fe'u nodir yn fanylach yma.

Y Pedwar Diben	Sut y gall Llenyddiaeth gyfrannu
1. Dysgwyr uchelgeisiol, galluog	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae dysgwyr uchelgeisiol, galluog, yn gallu darllen drostynt eu hunain, canfod gwybodaeth a pharhau i wneud gwaith ymchwil o ran diddordeb a chariad at y pwnc.</li> <li>• Mae darllen yn datblygu cymhelliant cynhenid ar gyfer dysgu.</li> </ul>
2. Cyfranwyr mentrus, creadigol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid gweithred oddefol yw darllen ond un greadigol sy'n ddiweddglo i fan</li> </ul>

	<p>cychwyn yr awdur. Fel y dywedodd yr awdur ffuglen Ursula Le Guin, heb ddarlennydd creadigol, dim ond marciau ar dudalen yw stori.</p>
<p>3. Unigolion hyderus, iach</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae ymchwil wedi dangos bod darllen yn gwneud pobl yn hapusach ac mae darllen hefyd yn llesol i'n hiechyd seicolegol. Mae darllen yn uchel, dysgu ar y cof a mynegi barn yn codi lefelau hyder.</li> </ul>
<p>4. Dinasyddion moesegol, gwybodus sy'n barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae llenyddiaeth yn delio â materion moesol mewn lle diogel, gan ganiatáu i'r disgyblion drafod materion a sefyllfaoedd 'o hyd braich'.</li> <li>Mae 'gwybodus' yn air diddorol - mae rhai wedi cymryd yn llythrennol i olygu 'ffeithiau', ond yn ddelfrydol byddai gan ddinesydd gwybodus empathi, ymdeimlad o'r gorffennol, a gwybodaeth gyffredinol am gymdeithas. Mae'r rhain yn nodweddion sy'n perthyn i rywun sydd wedi darllen yn eang ac yn meddu ar synnwyr o hunaniaeth a moesoldeb.</li> </ul>

#### 4. Casgliad

Beth yw byw? Cael neuadd fawr

Rhwng cyfyng furiau.

Beth yw gwybod? Cael un gwraidd

Dan y canghennau.

Waldo Williams

P'un a gelwir y pwnc yn Ddarllen, fel y'i gelwir hyd at Flwyddyn 10, neu Llenyddiaeth fel y'i gelwir pan fydd yn cael statws ar wahân yng Nghyfnod Allweddol 4, mae dysgu i ddod yn ddarllenydd ar lefel uchel yn rhan hanfodol o addysg yr unigolyn, ac mae angen rhoi sylw manwl iddo a pharatoi yn ofalus. Trwy gyfrannu at yr holl ddibenion adolygiad cwricwlwm Donaldson, ac yn bwysig i dri maes astudio, mae gan Llenyddiaeth rôl hanfodol wrth godi safonau a chau'r bwlch cyrhaeddiad.

Trwy ddefnyddio testunau yn yr iaith Gymraeg neu'r rhai a ysgrifennwyd yn Saesneg gan awduron o Gymru, mae Llenyddiaeth yn cyfrannu at hunaniaeth o genedligrwydd a chymuned yng Nghymru, a dylai felly fod yn rhan hanfodol o addysg unrhyw ddisgybl yng Nghymru. Ar ben hynny, fe ddylai ein traddodiadau hir o farddoniaeth, a'r prosiectau ymchwil sy'n tanlinellu fod barddoniaeth yn ysbrydoli myfyrwyr, sicrhau fod iddo le arbennig yn ein diwylliant ac yn ein hystafelloedd dosbarth.

Rydym yn amlinellu gwybodaeth/cysyniadau a sgiliau cysylltiedig a chymwyseddau ar gyfer plant 3-16 oed yn Atodiad 2. Mae hyn yn dilyn datblygiad y berthynas gynyddol gymhleth sydd gan ddisgyblion gyda thestunau, ac yn enwedig y gwaith o ddatblygu eu hymateb emosiynol, beirniadol ac athronyddol. Rydym yn dadlau y bydd yr amryw ffurfiau o'r gair llafar sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein plant a'n pobl ifanc drwy rwydweithiau a gemau, yn meithrin cenhedlaeth o gyfathrebwyr croyw. Dylai datblygiad y sgiliau hyn, gan ddefnyddio ffurfiau sydd eisoes yn apelio, ddigwydd ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad, a thrwy hynny arfogi disgyblion gyda'r modd i ddod yn ddinasyddion byd-eang balch ac uchel eu cloch.

## Casgliadau

- Mae darllen yn dod â llawenydd a bodlonrwydd. Mae'r rheini'n fuddion pwysig.
- Oherwydd bod darllen llenyddiaeth yn drawsffurfiol, mae'n arf pwerus i ysgogi disgyblion, i agor eu meddyliau, ac i gau'r bylchau a ddaeth yn sgîl amddifadedd a diffyg cyfleoedd.
- Mae gan blant hawliau ynghylch yr hyn y maent yn ei ddarllen, sut y maent yn ei ddarllen, ac ansawdd yr adnoddau a gynigir iddynt.
- Mae gan blant yng Nghymru yr hawl i gael cyswllt gydag ysgrifennu ac awduron, gan adlewyrchu eu treftadaeth, cymuned a chenedl.
- Trwy waith sydd wedi ei gyfieithu i'r Saesneg a'r Gymraeg, dylai plant gael eu cyflwyno i'r goreuon sydd gan ddiwylliannau eraill i'w gynnig. Mae gan llawer o blant yng Nghymru



fwy nag un hunaniaeth genedlaethol ac mae angen i'r ffaith hwn gael ei adlewyrchu mewn deunyddiau darllen amrywiol.

- Dylai asiantaethau megis Llenyddiaeth Cymru, Cyngor Llyfrau Cymru a'r cwmnïau cyhoeddi gael cefnogaeth i greu a chyflwyno deunyddiau darllen pwrpasol a phrofiadau darllen i blant a phobl ifainc.
- Mae gan lyfrgelloedd a llyfrgellwyr rhan fawr i'w chwarae mewn addysg, a dylid hyn fod ochr yn ochr â phlatfformau digidol, ac nid mewn cystadleuaeth â nhw.
- Mae gan y gair 'testun' arwyddocâd ehangach na'r gair 'llyfr', ond mae'r ddau yn dod o'r un teulu, ac mae'n fwy defnyddiol i'w rhoi yn yr un tŷ na'u cadw ar wahân.
- Ni ellir gor-bwysleisio pwysigrwydd darllen wrth agor drysau i'r byd, gan wella ein dealltwriaeth o bobl eraill a chreu dinasyddion meddwl-agored a charedig.

I gloi, mae colli'r cyfle i blethu Llenyddiaeth i mewn i bob agwedd o ddysgu iaith, yn arwain at golli cyfleoedd dysgu melys a chwerw hefyd. Byddai gofyn i rywun ysgrifennu heb gyfle i astudio gwaith awduron yn cyfateb i roi mwgwd tros lygaid artist. Gwae ni os ydym yn diraddio Llenyddiaeth a'i wthio i'r cyrion mewn gwerau Saesneg neu Gymraeg, oherwydd mae'n eglur oddi wrth eiriau pobl, o Barack Obama i Aneirin Karadog, y gall Llenyddiaeth achub eich bywyd. Unwaith y bydd ar agor, ni fydd y drws dychymyg byth ar gau.

“Pe meddwn dalent plentyn

I weld llais a chlywed llun”

Gerallt Lloyd Owen